

# **Canllaw i Etholwyr:** Cymorth ariannol i fyfyrwyr addysg bellach 2018/19



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:  
**[www.cynulliad.cymru/ymchwil](http://www.cynulliad.cymru/ymchwil)**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Ymchwil**  
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
**Tŷ Hywel**  
**Bae Caerdydd**  
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 7301**  
E-bost: **[Phil.Boshier@assembly.wales](mailto:Phil.Boshier@assembly.wales)**  
Twitter: **[@SeneddResearch](https://twitter.com/SeneddResearch)**  
Blog: **[SeneddResearch.blog](http://SeneddResearch.blog)**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Canllaw i Etholwyr:

## Cymorth ariannol i fyfyrwyr addysg bellach 2018/19

**Awdur:** Phil Boshier

**Dyddiad:** Gorffennaf 2018

**Rhif yr ymholiad:** FAQ18-008

---

Holir y Gwasanaeth Ymchwil yn rheolaidd am gyllid myfyrwyr ac mae'r canllaw cyflym hwn yn cynnwys gwybodaeth am rai o'r cwestiynau a ofynnir inni fwyaf aml. Nid yw'n ganllaw cynhwysfawr, a dylech bob amser ofyn am gyngor gan Gyllid Myfyrwyr Cymru neu weithiwr proffesiynol â chymwysterau addas sydd wedi'i deilwra i'ch sefyllfa unigol.



# Cynnwys

<b>1. Cyflwyniad .....</b>	<b>1</b>
Oes raid i mi dalu ffioedd dysgu?.....	1
<b>2. Myfyrwyr 16-18 oed.....</b>	<b>3</b>
Lwfans Cynhaliaeth Addysg (EMA) .....	3
Tocynnau bws rhad .....	3
<b>3. Myfyrwyr 18 oed neu hŷn .....</b>	<b>4</b>
Benthyciadau Datblygiad Proffesiynol a Datblygu Gyrfa (PCDL) .....	4
<b>4. Myfyrwyr 19 oed neu hŷn .....</b>	<b>5</b>
Grant Dysgu Addysg Bellach Llywodraeth Cymru .....	5
Tabl 1 - Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (Addysg Bellach).....	6
<b>5. Cronfeydd ariannol wrth gefn (FCF).....</b>	<b>7</b>
<b>6. Ymddiriedolaeth Thomas Wall .....</b>	<b>8</b>
<b>7. Cysylltiadau ac adnoddau .....</b>	<b>9</b>
Manylion Cyswllt y Colegau.....	9

## 1. Cyflwyniad

Nod y canllaw hwn yw rhoi rhywfaint o wybodaeth i chi am y gwahanol fathau o gymorth ariannol a allai fod ar gael i chi o fis Medi 2018 ymlaen os ydych yn astudio cwrs addysg bellach llawn amser neu ran amser yng Nghymru, neu'n bwriadu gwneud hynny.

Ystyr arferol addysg bellach yw addysg i'r rhai rhwng 16 a 18 oed (er bod oedolion hefyd yn gallu dilyn cyrsiau addysg bellach) a hynny, fel arfer, mewn colegau lleol neu'r chweched dosbarth mewn ysgolion. Mae rhai cynghorau'n cynnig cyrsiau mewn colegau ac yn y chweched dosbarth. Dim ond cyrsiau mewn colegau lleol sy'n cael eu cynnig gan rai cynghorau. Mae addysg bellach yn wahanol i addysg uwch ond mae'n bosibl y bydd eich coleg lleol chi'n cynnig cyrsiau addysg bellach ac addysg uwch. Byddant yn egluro'r gwahaniaeth rhwng y ddau fath pan fyddwch yn edrych ar y cyrsiau.

Canllaw cyffredinol yw'r llyfryn hwn ac ni fydd yn disgrifio sefyllfa pawb.

Dylech holi [Cyllid Myfyrwyr Cymru](#) a/neu'ch coleg neu'ch chweched dosbarth i gael cyngor ynghylch eich sefyllfa bersonol chi.

### Oes raid i mi dalu ffioedd dysgu?

**Nag oes, fel arfer, os ydych rhwng 16 ac 18 oed.**

**Os ydych yn 19 neu'n hŷn, mae'n bosibl y bydd yn rhaid i chi dalu ffioedd dysgu.**

Os ydych chi rhwng 16 a 18 oed, ni fydd yn rhaid i chi dalu unrhyw ffioedd dysgu fel arfer. Er, bydd rhai colegau lleol yn codi ffi cofrestru (tua £30-£50) i dalu am bethau fel eich cerdyn llyfrgell. **Os na allwch fforddio hyn, siaradwch â'r coleg.**

Os ydych yn 19 oed neu'n hŷn, ac yn astudio'n llawn amser neu'n rhan amser, mae'n bosibl y bydd yn rhaid i chi dalu ffioedd dysgu. Holwch yr ysgol neu'r coleg lle'r ydych yn astudio i weld beth yw'r sefyllfa yno.

Os ydych yn 19 oed neu'n hŷn, ac mae disgwyl i chi dalu ffioedd, **efallai y byddant yn gallu cynnig i chi beidio â'u talu, neu beidio â thalu cymaint, mewn rhai sefyllfaoedd** e.e. os ydych yn astudio'n rhan amser, os yw incwm y cartref yn isel neu os ydych yn cael rhyw fudd-daliadau penodol. Holwch eich coleg neu'ch chweched dosbarth i gael cyngor ynghylch eich sefyllfa bersonol chi.

Os ydych yn cael budd-daliadau, mae'n bosibl y byddwch yn gallu parhau i gael y rhain tra byddwch yn astudio. Mae'r rheolau perthnasol yn gymhleth iawn felly

## Canllaw i Etholwyr:

Cymorth ariannol i fyfyrwyr addysg bellach 2018/19

---

dylech holi'ch Canolfan Waith leol neu siaradwch â'r Adran Gwaith a Phensiynau a fydd yn gallu rhoi cyngor i chi. Ar y dudalen hon, mae rhestr o [linellau cymorth](#).

Mae manylion cyswllt pob coleg ar ddiwedd y ddogfen hon.

## 2. Myfyrwyr 16-18 oed

### Lwfans Cynhaliaeth Addysg (EMA)

Os ydych yn bodloni'r rheolau i gyd, mae'n bosibl y **cewch hyd at £30 yr wythnos, a gaiff ei dalu bob pythefnos** (ond mae hyn yn dibynnu ar incwm y cartref).

Mae'r **Lwfans Cynhaliaeth Addysg (EMA)** ar gael i fyfyrwyr llawn amser 16-18 oed sy'n dilyn cyrsiau addysg bellach yng Nghymru.

Nid oes raid i chi astudio yng Nghymru (os ydych yn byw ger y ffin rhwng Cymru a Lloegr er enghraifft) ond mae'n rhaid i'ch ysgol fod yn "rhan o'r cynllun" ac mae'n rhaid i'r cwrs rydych yn ei ddilyn fod yn "gymwys".

Mae gofynion hefyd o ran cenedligrwydd ond, os ydych yn ddinesydd y DU ac yn byw yng Nghymru, dylech fod yn gymwys. Gallwch fod gymwys hyd yn oed os nad ydych yn ddinesydd y DU, ond rhaid i chi holi Cyllid Myfyrwyr Cymru, eich coleg neu'ch chweched dosbarth i wneud yn siŵr.

Bydd eich coleg neu'ch chweched dosbarth yn gallu dweud wrthy'ch a yw'ch cwrs yn un cymwys. Mae'r "prif" gyrsiau i gyd yn gymwys fel arfer gan gynnwys cyrsiau TGAU, UG, Safon Uwch, BTEC, NVQ/GNVQ a Sgiliau Sylfaenol.

Rhaid i incwm y cartref fod yn is na ryw lefel benodol cyn y cewch y Lwfans Cynhaliaeth Addysg (EMA).

Mae dwy lefel wahanol, gan ddibynnu ar sefyllfa'ch teulu.

I gael EMA, rhaid i incwm y cartref fod yn is na **£20,817** os chi yw'r unig berson ifanc yn y cartref, neu'n **llai na £23,077** os oes mwy o bobl ifanc yn y cartref. **Os yw incwm y cartref yn uwch na hyn, ni chewch unrhyw EMA fel arfer.**

### Tocynnau bws rhad

**Gallwch wneud cais am gerdyn teithio er mwyn medru teithio'n rhatach ar y bws.** Cerdyn ar gyfer myfyrwyr 16-18 yw hwn. Mae'n bosibl i chi arbed hyd at draean o gost tocyn. Rhaid i chi wneud cais am y cerdyn ar wefan Fyngherdynteithio. Mae'r cynllun yn debygol o ddod i ben ond, ar hyn o bryd, nid ydym yn gwybod beth ddaw yn ei le.

## 3. Myfyrwyr 18 oed neu hŷn

### Benthyciadau Datblygiad Proffesiynol a Datblygu Gyrfa (PCDL)

Benthyciadau gan y banc yw Benthyciadau Proffesiynol a Datblygu Gyrfa, a gallwch eu defnyddio i dalu am gyrsiau a hyfforddiant.

Y prif wahaniaeth rhwng y math hwn o fenthyciad banc a benthyciad arferol yw bod y llog arno'n is ac mae'r llywodraeth yn talu'r llog i chi tra byddwch yn astudio.

**Mae'r cynllun ar fin dod i ben felly rhaid i chi wneud cais erbyn 25 Ionawr 2019.**

Rhaid i chi fod yn ddinesydd Prydeinig 18 oed neu hŷn. Rhaid i chi hefyd fod yn byw yn y DU ers 3 blynedd o leiaf cyn i'ch cwrs ddechrau a rhaid i chi fod yn bwriadu gweithio yn y DU, yr Undeb Ewropeaidd (EU) neu Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA) ar ôl cwblhau'r cwrs (bydd y lincs yn dangos pa wledydd sy'n cyfrif) .

Gallwch fenthycio rhwng £300 a £10,000 ar gyfer cyrsiau llawn amser neu ran amser. Yn ogystal â'r meini prawf uchod, i gael benthyciad, rhaid i'ch cwrs:

- bara hyd at 2 flynedd yn unig, neu 3 blynedd os yw'n cynnwys blwyddyn o brofiad gwaith;
- bod ar gael mewn sefydliad sydd ar gofrestr y Benthyciad Datblygiad Proffesiynol a Datblygu Gyrfa;
- eich helpu i ddatblygu'ch gyrfa - nid oes raid iddo arwain at gymhwyster.

Cewch ragor o fanylion drwy ffonio llinell wybodaeth PCDL ar **0800 100 900** yn ogystal â gwefan GOV.UK.



## 4. Myfyrwyr 19 oed neu hŷn

### Grant Dysgu Addysg Bellach Llywodraeth Cymru

Mae **Grant Dysgu Addysg Bellach Llywodraeth Cymru** yn helpu myfyrwyr sy'n dod o deuluoedd ar incwm isel er mwyn iddynt fedru parhau i astudio cyrsiau addysg bellach.

Rhaid i chi fod yn **19 oed neu'n hŷn** ar 1 Medi 2018.

**Gan mai grant yw hwn, nid oes raid i chi ei ad-dalu.**

I fod yn gymwys, rhaid i chi astudio mewn **coleg sy'n rhan o'r cynllun** a rhaid i chi ddilyn **cwrs cymwys** sydd:

- o leiaf 275 awr o hyd; ac
- yn arwain at 'gymhwyster sy'n cael ei gydnabod yn genedlaethol' fel TGAU, UG, Safon Uwch, BTEC, GNVQ, NVQ a Sgiliau Sylfaenol.

Gall eich coleg neu'ch chweched dosbarth ddweud wrthy'ch pa gyrsiau sy'n cyfrif.

Mae'n bosibl cael grant o hyd at **£1,500** am gwrs amser llawn a **£750** am gwrs rhan amser, ond bydd y gwir swm yn dibynnu ar eich incwm chi neu'ch cartref – mae'r rheolau manwl i'w cael **yma**.

I gael y grant llawn o £1,500, byddai angen i'ch incwm chi neu incwm y cartref fod yn **£6,120 neu lai**. Os yw'r incwm dros **£18,370 ni chewch unrhyw grant**. Mae'r tabl isod yn dangos faint o grant gewch chi.

Tabl 1 – Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (Addysg Bellach)

---

Incwm blynyddol y cartref	Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (Addysg Bellach) sydd ar gael (rhan amser/ llawn amser)
<i>hyd at £6,120</i>	£750 / £1,500
<i>£6,121 - £12,235</i>	£450 / £750
<i>£12,236 - £18,370</i>	£300 / £450
<i>£18,371 +</i>	£0

*Ffynhonnell: Cyllid Myfyrwyr Cymru*

## 5. Cronfeydd ariannol wrth gefn (FCF)

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi arian i golegau Cymru er mwyn iddynt fedru helpu myfyrwyr sydd â phroblemau ariannol. Y rhain yw'r Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn. Mae colegau'n eu galw'n Gronfeydd Cymorth i Fyfyrwyr neu'n Gronfeydd Caledi Myfyrwyr.

Gall colegau gynnig grantiau (nid oes angen eu had-dalu) neu fenthyciadau (mae angen eu had-dalu). Mae cymorth ar gael i fyfyrwyr llawn amser a rhan amser.

Mae'r arian yn cael ei roi i'r colegau ac mae rhwydd hynt iddynt osod eu rheolau eu hunain cyn belled â'u bod yn cadw at reolau Llywodraeth Cymru. Fel arfer, bydd colegau'n helpu myfyrwyr drwy gynnig taliadau brys i fyfyrwyr sydd mewn argyfwng neu os ydynt yn meddwl rhoi gorau i'r cwrs oherwydd problemau ariannol. Gall yr arian helpu i dalu am bethau fel:

- gofal plant
- trafnidiaeth
- offer hanfodol ar gyfer y cwrs

Mae Llywodraeth Cymru yn hoffi i golegau roi blaenoriaeth i bobl mewn grwpiau arbennig. Yn y gorffennol, mae'r grwpiau hyn wedi cynnwys myfyrwyr sydd â phlant, yn enwedig rhieni unigol; myfyrwyr sy'n byw yn yr ardaloedd tlotaf; myfyrwyr sydd wedi gadael y system gofal a myfyrwyr ar incwm isel.

## 6. Ymddiriedolaeth Thomas Wall

Mae **Ymddiriedolaeth Thomas Wall** yn cynnig grantiau i bobl sy'n wynebu 'rhwystrau mewn bywyd' i'w helpu i ddilyn cwrs hyfforddi na fyddent yn gallu ei fforddio fel arall. Symiau cymharol fach sy'n cael eu cynnig, dim mwy na £1,000 fel arfer.

Mae rheolau'r cynllun yn wahanol iawn i reolau cyllid myfyrwyr arferol. Mae'r prif reolau wedi'u rhestru isod ac mae rhagor o fanylion i'w gweld **yma**.

- Rhaid i chi fod yn 16 oed neu'n hŷn.
- Rhaid i chi fod yn byw yn y DU ers tair blynedd o leiaf cyn dechrau'ch cwrs.
- Rydych yn wynebu 'rhwystrau sy'n eich atal rhag cael gwaith neu addysg' ac nid dim ond rhesymau ariannol sy'n eich atal.
- Ni allwch dalu am eich hyfforddiant mewn unrhyw ffordd arall.
- Nid oes gennych gymwysterau i weithio.
- Rydych yn astudio cwrs technegol neu gwrs seiliedig ar sgiliau sydd ar lefel is na gradd.
- Gallwch ddangos anghenion amlwg.

Gall **adran Cwestiynau Cyffredin** y cynllun esbonio rhai o'r rheolau.

Cewch ragor o fanylion ar wefan Ymddiriedolaeth Thomas Wall neu drwy anfon e-bost at **[information@thomaswalltrust.org.uk](mailto:information@thomaswalltrust.org.uk)**.

## 7. Cysylltiadau ac adnoddau

- Gallwch gysylltu â chyllid Myfyrwyr Cymru i gael gwybodaeth am y Lwfans Cynhaliaeth Addysg, neu Grant Dysgu Addysg Bellach Llywodraeth Cymru o ddydd Llun i ddydd Gwener: 8:00am - 6:00pm drwy ffonio **0300 200 4050**, neu drwy anfon e-bost **[emawales@slc.co.uk](mailto:emawales@slc.co.uk)** (i holi am y Lwfans Cynhaliaeth Addysg) neu **[WGLGFE@slc.co.uk](mailto:WGLGFE@slc.co.uk)** (i holi am y Grant Dysgu).
- Ar **[wefan Gyrfa Cymru](#)** cewch ragor o wybodaeth am gyllid i fyfyrwyr sydd ag anableddau ac anawsterau dysgu.
- Gall **[Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr](#)** roi gwybodaeth am gyllid.

### Manylion Cyswllt y Colegau

Dyma'r manylion cyswllt a oedd ar wefannau'r colegau unigol fis Mehefin 2018.

- **[Coleg Gwent](#)** ffôn: 01495 333777 e-bost drwy'r **[ffurflen gysylltu](#)**
- **[Chweched Dosbarth Coleg Catholig Dewi Sant](#)** ffôn: 02920 498555 e-bost: **[enquiries@stdavidscollege.ac.uk](mailto:enquiries@stdavidscollege.ac.uk)** neu drwy'r ffurflen gysylltu.
- **[Coleg Caerdydd a'r Fro](#)** ffôn: 02920 250 250 e-bost: **[info@cavc.ac.uk](mailto:info@cavc.ac.uk)**
- **[Coleg y Cymoedd](#)** ffôn: 01658 887500 (**[Aberdâr](#)**); ffôn: 01443 662800 (**[Nantgarw](#)**); ffôn: 01443 663202 (**[Rhondda](#)**); ffôn: 01443 816888 (**[Ystrad Mynach](#)**) e-bost: **[enquiries@cymoedd.ac.uk](mailto:enquiries@cymoedd.ac.uk)**
- **[Coleg Merthyr Tudful](#)** ffôn: 01685 726000 e-bost drwy'r **[ffurflen gysylltu](#)**
- **[Coleg Pen-y-bont](#)** ffôn: 01656 302302 email: **[enquiries@bridgend.ac.uk](mailto:enquiries@bridgend.ac.uk)** neu drwy'r **[ffurflen gysylltu](#)**
- **[Grŵp Colegau NPTC \(Castell-nedd Port Talbot\)](#)** ffôn: 01639 648000 e-bost: **[admissions@nptcgroup.ac.uk](mailto:admissions@nptcgroup.ac.uk)**
- **[Coleg Gŵyr](#)** ffôn: 01792 284000 (Ty Coch); 01792 890700 (Gorseinon); 01792 284021 (Llwyn y Bryn); 01792 284400 (Jubilee Court) e-bost: **[info@gowercollegeswansea.ac.uk](mailto:info@gowercollegeswansea.ac.uk)**

- **Coleg Sir Gâr** ffôn: 01554 748000 e-bost: **financialsupport@colegsirgar.ac.uk** neu drwy'r **ffurflen gysylltu**
- **Coleg Sir Benfro** ffôn: 01437 753000 e-bost: **admissions@pembrokeshire.ac.uk** neu drwy'r **ffurflen gysylltu**
- **Coleg Ceredigion** ffôn: 01970 639700 (Aberystwyth); ffôn: 01239 612032 (Aberteifi) e-bost: **enquiries@ceredigion.ac.uk** neu drwy'r **ffurflen gysylltu**
- **Grŵp Llandrillo Menai** - Coleg Llandrillo ffôn: 01492 542338; Coleg Meirion Dwyfor ffôn: 01341 422827; Coleg Menai ffôn: 01248 370125
- **Coleg Cambria** ffôn: 0300 3030007 e-bost: **enquiries@cambria.ac.uk** neu drwy'r **ffurflen gysylltu**
- **Addyg Oedolion Cymru** ffôn. 02920 235277 e-bost: **info@adultlearning.wales**